

ADRODDIAD ADRODD YN OL AR YMGYNGHORIAD YSGOL Y FAENOL

Ymatebion i'r Ymgynghoriad Statudol i gynyddu capasati Ysgol y Faenol o 186 i 315

(Cyfnod Ymgynghori Statudol 18 Medi 2018 – 30 Hydref 2018)

Derbyniwyd **19** ymateb i'r ymgynghoriad statudol gan gynnwys ymatebion gan staff, preswylwyr, rhieni, yn ogystal a'r cyrff canlynol:

Estyn

NASUWT

Staff Ysgol y Faenol

Cynrychiolwyr Canolfan Cymunedol Penrhosgarnedd

Awdurdod Addysg

Sylwadau		Ymateb
1	Cefnogaeth i'r cynnig	
1.1	Yn gyntaf, rwyf yn cydnabod yr angen i ddarparu cyfleusterau priodol i ddiwallu anghenion cenhedlaeth y dyfodol ac wrth wneud hynny hefyd i ddarparu gofod ynghyd â mynediad ac allanfa diogel i staff, plant a rhieni yn ystod y tymor.	Mae'r Corff Llywodraethol yn nodi'r sylwadau cadarnhaol yma fel rhan o'r ymgynghoriad.
1.2	Rwyf yn credu bod y cynnig yma yn wych gan gysidro y galw am yr ysgol. Un or Ysgolion gorau yn yr ardal. Mae wastad mewn galw uchel. Mi eith yn bell iawn i ddatblygiad cymunedol.	Mae Ysgol bresennol y Faenol yn gymysgedd o adeiladau wedi'u codi ar wahanol adegau yn hanner olaf y ganrif ddiwethaf. Mae'r Ysgol wreiddiol wedi ei hystyngi i'r cefn gyda bloc o wneuthuriad modwlar, ac mae gofod ychwanegol wedi'i ddarparu drwy ddefnyddio dosbarthiadau 'dros dro' yn y cefn.
1.3	Rwyf yn cytuno gyda'r cynnig arfaethedig	
1.4	Hapus gyda cynlluniau yr ysgol,	
1.5	Rydym yn ymfalchïo bod y Llywodraethwyr, Cyngor Gwynedd a'r Llywodraeth am fuddsoddi er mwyn gwella a datblygu'r ysgol. Mae'r ysgol wedi bod dros capasiti ers blyneddodded ac mae nifer o geisiadau'n cael eu gwrthod yn flynyddol oherwydd diffyg llefydd gwag. Rydym yn hyderus bydd y datblygiad a'r estyniad yn ein galluogi i wella'r ddarpariaeth ar draws yr ysgol er mwyn sicrhau bod pob un o'n disgyblion yn cyrraedd eu potensial. Mae'r system parcio presennol yn bryder mawr i ni ac mae nifer o ddisgyblion yn hwyr yn cyrraedd yn y bore neu'n mynd adref yn y prynhawn oherwydd bod rhieni yn cael trafferth dod o hyd i le parcio. Bydd creu maes parcio a man gollwng yn helpu i ddatrys y broblem yma. Rydym yn hapus i Ganolfan Penrhosgarnedd ddod ar dir yr ysgol fel rhan o'r datblygiad yma ac mi fyddwn yn barod i gydweithio'n agos gyda Chyngor Cymuned Pentir i sicrhau llwyddiant y Ganolfan.	Yn y cynllun, y bwriad yw cynyddu capasiti'r Ysgol bresennol i 315 o ddysgwyr, a bwriedir gwneud hyn drwy addasu'r adeiladau presennol, adeiladu estyniadau, a gwaredu'r dosbarthiadau dros dro. Yn ogystal, fel rhan o'r datblygiad mae'n frwriad darparu gofod newydd pwrpasol ar gyfer y Cylch Meithrin. Bydd yr adeiladau gwreiddiol yn cael ei ail fodelu yn fewnol i ddarparu ystafelloedd sydd yn cyd-fynd â'r safonau disgwylidig mewn Ysgol 21Gain. Bydd yr ystafelloedd dysgu ychwanegol, a'r dosbarthiadau sydd yn yr adeiladau dros dro, yn cael eu lleoli oddi mewn i'r estyniadau newydd. Bydd yr estyniadau yma yn cyd-ymffurfio â safonau 'Building Bulletin 99' y Llywodraeth. Yn ogystal, bydd y bloc modwlar to fflat yn cael croen newydd i wella ansawdd yr adeilad.
1.6	Fel rhan o'r gwaith ymgysylltu ar gyfer ystyried dyfodol addysg gynradd ym Mangor, cynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd o'r Panel Adolygu Dalgylch (PAD) rhwng mis Mehefin a mis Tachwedd, gyda'r olaf ar 29 Tachwedd 2017. Yn ystod y cyfarfodydd, ystyriwyd sawl opsiwn ar gyfer addysg gynradd ym Mangor er mwyn sicrhau darpariaeth gynaliadwy i'r dyfodol gan ymateb yn benodol i'r angen am gynnydd yn y galw am lefydd yn ardal Penrhosgarnedd a gwella'r ddarpariaeth i ddysgwyr y ddinas. Fel canlyniad i'r trafodaethau yma, adnabuwyd yr angen i gynyddu capasiti'r Faenol fel un o'r prif ystyriaethau ar gyfer weledigaeth y Cyngor. Bydd y buddsoddiad sylweddol arfaethedig sydd ynghlwm a'r cynnig yn golygu fod y disgyblion yn cael eu haddysgu mewn adnodd modern sy'n cyd-fynd gyda'r cwricwlwm cyfoes ac yn gyfle cyffrous i ni ddatblygu adnodd o'r radd flaenaf ar gyfer yr ardal yma o Fangor. Rydym yn argyhoeddedig felly bod yr opsiwn i gynyddu capasiti y Faenol i 315 gan Gorff Llywodraethol yn cyd-fynd a gweledigaeth gyffredinol Cyngor Gwynedd i gryfhau'r ddarpariaeth gynradd yn yr ardal ac yn gefnogol iawn i'r cynnig penodol hwn.	



1.7	<p>Rwy'n hapus y bydd poblogaeth yr ysgol yn cael ei chynyddu. Mae'n ymddangos yn synhwyrol i gynyddu gan fod yr ysgol yn boblogaidd ac mae tai newydd yn / wedi cael eu hadeiladu yn yr ardal leol.</p> <p>Mae gwahanu'r ysgol a'r maes parcio yn syniad synhwyrol, ac mae dyluniad gwell i'r maes parcio arfaethedig hefyd yn syniad da</p>	<p>Mae adolygiad o'r materion sydd yn gysylltiedig gyda threfniadau presennol Ysgol y Faenol wedi adnabod bod:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae'r galw ar gyfer addysg yn ardal Penrhosgarnedd wedi cynyddu ac mae hyn hefyd yn wir ar gyfer nifer y disgyblion yn Ysgol y Faenol, lle mae'r ysgol ar hyn o bryd dros gapasiti.
1.8	<p>Yn gyffredinol, rwyf yn gefnogol iawn i'r cynllun. Mae'r angen i gynyddu capasiti'r ysgol yn amlwg i bawb, ac mae'r cynllun presennol, i bob golwg, yn ymateb i'r angen hwnnw mewn ffordd sy'n ymddangos yn addas iawn.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Nid yw'r adeilad presennol yr ysgol yn bodloni'r Llywodraethau safonau, o ran cyfleusterau ysgolion yr 21ain ganrif a gofod ei gynigion. • Y safle a'r adeiladau yn annigonol i ddiwallu anghenion y gymuned ehangach. • Mae cost y pen ar gyfer disgyblion Ysgol y Faenol yn £3,191 sydd yn is na chyfartaledd sirol £3,777. • Gall datblygiadau tai newydd ym Mangor roi mwy o bwysau ar allu'r ysgol leol i dderbyn plant. Mae un datblygwr wedi derbyn caniatâd cynllunio i adeiladu 245 o anheddau, ac eisoes wedi adeiladu nifer fawr ohonynt. • Mae staff a disgyblion yn gorfod trosglwyddo rhwng ystafelloedd dosbarth symudol a phrif adeilad • Mynediad/meysydd parcio yn yr yn gyfyngedig ac yn peri aflonyddwch yn yr ysgol a'r ardal gyfagos yn ystod amseroedd casglu/gollwng plant
2	Traffig	
2.1	<p>Er bod y Ddogfen Ymgynghori Statudol yn dangos darluniau amlinellol o'r cynllun newydd arfaethedig, nid yw'n ymddangos bod unrhyw gyfeiriadau tuag at yr effaith ar draffig cynyddol a fydd heb amheuaeth yn amlygu ei hun oherwydd y cynnydd yn nifer y disgyblion y disgwylir i fynychu'r ysgol, er bod cyfleusterau wedi'u darparu ar gyfer y staff mewn lleoliad newydd, (Canolfan Gymunedol Penrhosgarnedd) sef y maes parcio newydd a'r manau gollwng a fydd yn</p> <p>Wedi byw yma ers dros 40 mlynedd, rwyf wedi gweld cynydd mewn cerbydau, o geir bach i lorïau mawr, sydd bellach yn defnyddio Ffordd Penrhos fel un o'r llwybrau pennaf i Fangor ac yn enwedig Ysbyty Gwynedd, rwy'n gwerthfawrogi bod arolygon wedi'u cario ac nid oes amheuaeth y bydd gennych y ffigurau ar gael, ond hyd yma, nid wyf yn ymwybodol o UNRHYW cynigion a gyflwynwyd i fynd i'r afael â'r broblem hon er mwyn lliniaru'r tagfeydd.</p> <p>Yn fy marn i, dim ond mater o amser sydd cyn i ddamwain ddifrifol ddigwydd rhwng y gylchfan ac Ysgol y Faenol, yn enwedig gan bod ystyriaeth wedi ei wneud i gynyddu capasiti disgyblion i 315, yr wyf yn siŵr y byddwch yn ei werthfawrogi yn golygu cynnydd mewn traffig.</p> <p>Yn fy marn i, eto, mae angen i Gyngor Sir Gwynedd feddwl am y modd y mae cerbydau yn y dyfodol yn gallu cael mynediad i fewn ac allan o Ysbyty Gwynedd, yn enwedig Staff, Cerbydau Nwyddau Mawr a Cherbydau Brys.</p>	<p>Mae arolygon wedi cael eu gwneud o'r traffig ar hyd y lôn, gan gynnwys asesiadau o'r cyffyrdd ar hyd y ffordd. Y strategaeth i leihau'r tagfeydd o gwmpas mynedfa'r ysgol yw i greu lôn a maes parcio ar dir y Ganolfan Gymunedol, yn cynnwys manau gollwng ar gyfer plant, er mwyn tynnu'r traffig oddi ar y lôn yn hytrach na stopio ar y ffordd o flaen yr Ysgol. Bydd y gwaith dylunio manwl dros y misoedd nesaf yn canolbwyntio ar sicrhau y defnydd gorau o'r ffordd ar fynedfa newydd i'r ysgol a bydd ystyriaeth lawn yn cael ei roi i rai o'r syniadau sydd wedi codi yn ystod yr ymgynghoriad.</p> <p>Gan mai gweithredu ar y cynnig i gynyddu capasiti Ysgol y Faenol yn unig mae Corff Llywodraethol yr Ysgol. Mi fyddai'n fater i Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd edrych ar y modd mae cerbydau yn teithio i Ysbyty Gwynedd.</p>

2.2	Mae gennai bryder ynglyn a traffig tu allan i Ysgol y Faenol gyda nifer o blant yn cynyddu. Er bod y man gollwng yn syniad da rwyf yn bryderus ei fod am fod yn anodd iawn adeg yma or dydd i bobl ddod yn ol ar y lon oherwydd traffig a bydd yn arwain at barcio ar y palmant fel sydd yn digwydd ar hyn o bryd sydd yn achosi trafferthion mawr i gerddwyr fel fi a fy mhlant sydd yn cerdded ir ysgol. Mae'r gyffordd allan o'r gollyngiad yn fuan iawn ar ôl y gornel felly mae lleoliad diogel i groesfan i gerddwyr i fynd i mewn i'r ysgol yn bwysig i mi.	Bydd mynediad i'r safle wedi adeiladu gyda'r gweledd angenrheidiol gyda marciau ar y lôn i rwystro ceir rhag parcio ar y palmant ac i orfodi unigolion i ddefnyddio'r cyfleusterau gollwng a ddarperir. Bydd cyd-weithio agos gyda'r Uned Gorfodaeth Parcio i weithredu unrhyw orchymyn i sicrhau na fydd parcio anghyfreithlon.
2.3	Yr wyf yn bryderus am fynediad cerddwyr i'r ysgol, os yw'r groesfan bresennol yn cael ei symud, nid yw'n weledol ac mae gennyf bryderon ynglŷn â diogelwch os nad oes cynlluniau ar gyfer croesfan. Mae'n iawn cael system draffig newydd yn dod i mewn ac allan o'r ysgol ond pwy sy'n mynd ati i reoli? Mae'n broblem ym mhob ysgol yng Ngwynedd + Ynys Môn???	Er y bydd mynedfa traffig i'r ysgol yn symud, wrth gwblhau'r gwaith dylunio manwl byddwn yn edrych yn agos ar sefyllfa y groesfan er mwyn sicrhau bod y cynlluniau yn gwella y trefniadau presennol.
2.4	Mae'r fynedfa newydd i gerbydau yn ymddangos yn broblemus. Gan nodi yn yr ymgynghoriad ar y newidiadau y Garnedd yn dweud y bydd asesiad risg yn cael ei gynnal, pa lefel o risg sy'n dderbyniol? A fydd y fynedfa arfaethedig yn un un-ffordd yn unig h.y. troi i'r chwith i mewn i'r maes parcio ac allan ohono – ar adegau prysur mi fydd hi'n anodd i geir groesi'r ffordd. Fel dewis amgen, a fyddai ystyriaeth yn cael ei rhoi i gael bocsg-gyffordd?	Bydd dyluniad y fynedfa newydd i'r ffordd fawr yn destun trafod pellach gyda'r Uned Drafnidiaeth. Nodwn yr awgrymiadau a byddem yn rhoi sylw iddynt yn ystod ein trafodaethau pellach.
3	Dyluniad ac adnoddau adeilad newydd yr Ysgol	
3.1	Hoffwn wneud sylw am y ddarpariaeth sydd o fewn y cynllun ar gyfer y Cylch Meithrin, sy'n cael ei gynnal yn y Ganolfan ar hyn o bryd. Dywedir yn y Ddogfen Ymgynghori ei bod yn fwrriad darparu gofod newydd pwrpasol ar gyfer y Cylch Meithrin (tud.21), ond mae'r Cynllun Cysyniadol ar dud. 22 a'r tabl ar dud. 23 yn awgrymu y bydd y Cylch yn gofod rhannu'r gofod hwnnw gyda'r Clwb Brecwast a'r Clwb ar ôl Ysgol. Credaf ei bod yn bwysig ian gofalu bod y Cylch yn cael ei le neilltuedig ei hun oddi mewn i'r gofod yma, h.y. man sydd wedi'i wahanu mewn modd boddhaol oddi wrth y ddau glwb yn hytrach na threfniant 'open plan'.	Bydd gofod pwrpasol yn ychwanegol i ofynion yr ysgol yn cael ei ddarparu i'r darparwyr gofal plant sy'n cynnwys Y Cylch Meithrin, Clwb Brecwast, Clwb ar ôl ysgol a.y.y.b, sydd yn cyd-fynd â safonau penodol cyrff cofrestru y darparwyr unigol.
3.2	Fy mhryder cyn dod i weld yr arddangosfa oedd cynllun yr Ystafell yr ydym y rannu gyda'r cylch meithrin ond yn dilyn sgwrs gyda aelod o'r cyngor a esboniodd nad Ystafell wag oedd ar ein cyfer, fel y mae yw weld ar y cynllun yn y llawlyfr, ond y bydd toiledau, cegin, swyddfa, stordy wedi eu cynnwys o fewn yr Ystafell. Tybiaf y gwyddoch fod clwb ar ôl Ysgol a gofal dydd yn dilyn rheolau caeth gan AGC ac felly mae ein gofynion ni yn hollol ddibynnol ar y rheolau yma. Rydym wedi ein cofrestru i gymryd 56 o blant ac yn ôl y rheolau dylid rhoi 2.5 metr sgwâr i bob un felly er mwyn cadw cofrestriad o 45 fe ddylwn fod hefo 140 metr sgwâr. Yn ôl y swyddog 111 metr sgwâr yw yr Ystafell. Golyga hyn y bydd rhaid i ni leihau ein cofrestriad tra bod yr Ysgol yn cynyddu? Ar y pwynt yma mae ein cefnogaeth yn llwyr o blaid y cynyddu ond gobeithio y byddwn yn gallu aros yr un fath er mwyn cynnig gwasanaethi'r rhieni a'r ysgol. Mae adnodd fel ein clwb ni yn hanfodol i sawl rhiant sydd yn defnyddio'n gwahanol clybiau. Rydym ar agor 7:30 y bore tan 9 ac yna gofal dydd o 11:20 tan 6 yr hwyr. Oriau clwb gwyliau yw	5 Bydd y gofod yma a mynedfa, toiledau a gofod swyddfa ar wahân i'r Ysgol. Bydd disgwyl i'r darparwyr rannu'r gofod yma er mwyn gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o'r adnodd, gyda storffeydd i'r darparwyr storio unrhyw gyfarpar sydd ddim yn cael eu rhannu â grwpiau eraill. Trwy amserlennu gofalus gyda'r Ysgol, 'rydym yn ffyddiog bod digon o ofod ar gael i gynnal y nifer cofrestredig i gyfarch anghenion yr Ysgol.

7:30yb-6yh. Gan mai sefydliad di-elw sydd yn cael ei reoli gan bwyllgor gwirfoddol o rieni ac yn cael ei redeg o ddydd i ddydd gennyf u rydym dros y blynyddoedd wedi cyfrannu yn sylweddol ar yr ysgol. Rydym wedi rhoi rhoddion ariannol sydd yn gyfanswm o £45,000 er mwyn e.e. uwchraddio camerâu cyfyng, uwchraddio goleuadau ti allan, offer chwarae mawr ar y ddwy iard, offer cyfrifiadurol a llawer iawn mwy. Ac wrth gwrs rydym yn talu rhent sef £7920 y flwyddyn i'r ysgol. Cyflogir 10 person yma sydd yn dibynnu ar gyflog o'r clwb.

Rwyf hefyd yn ymwybodol y bydd angen sgwrsio a thrafod rhyngom ni ar cylch am addasu o'r ddwy ochor ein oriau ond heb cael gwybodaeth lawn am gynllun yr ystafell ni fydd hyn yn bosib. Erfyniaf arnoch i'n cynnwys ni a'r cylch pan yn cynllunio fel y gallwn gyfrannu ar y drafodaeth a phenderfyniadau. Diolch am gael cyfle i leisio ein barn a'n pryderon ac edrychaf ymlaen i gael y cyfle i gyd weithio â chwi./ Pan ddaeth y sgwrsiau allan yn gyntaf, fe'u harweiniwyd i gredu y byddem ni'n cael ystafell ein hunain ar dir yr ysgol. Dywedwyd wrthym nawr ein bod ni am rannu ystafell gyda caban y Faenol, nid ydym yn gwybod sut y bydd hyn yn gweithio allan o'i herwydd. Mae Caban yn gorffen am 9yb a byddwn yn dechrau am 9yb. Bydd angen i'r Caban glirio a bod angen i ni sefydlu ein hunain a bod yn barod i ddechrau am 9yb. Mae Caban yn codi plant Ysgol Feithrin 11:20 am ond nid ydym yn gorffen tan 12pm.

Yn ogystal a fydd digon le storio ar gyfer adnoddau pawb. Sut y byddai'n gweithio gyda arddangos gwaith. Y rheswm pam yr oeddem yn awyddus i symud oedd i arbed arian ar gost rhent uchel iawn gan ein bod yn elusen gofrestredig. Hefyd, rydym yn aros y tu ôl rhai dyddiau i wneud gwaith papur sut y byddai'n gweithio i rannu swyddfa. / Rwyf yn sylweddoli nad yw Cylch Meithrin "wedi cael eu hystafell eu hunain ar y cynlluniau - wedi bod yn rhan o'u cyfarfod yn mynegi pryderon am ddyfodol y cylch Rwy'n gwybod ei bod yn flaenoriaeth iddynt gael eu gofod eu hunain. Mae lle ar y cynlluniau yn dangos eu bod yn rhannu gyda caban sydd ar hyn o bryd yn cael ei ddefnyddio o 11:20 a rhaid i'r cylch meithrin ddefnyddio hyd at 12. / Ar hyn o bryd mae gan yr ysgol glwb ar ôl ysgol llwyddiannus. Tybiaf fod y lle sydd wedi'i neilltuo yn le sydd hefyd wedi'i glustnodi ar gyfer y Cylch Meithrin. Mae'r lle hwn yn llai na'r Caban presennol ac o ystyried bod yr ysgol yn ymestyn byddai hyn yn golygu na fyddai digon o le yn Caban neu byddai'n rhaid gwrthod mwy o blant. / Ar y dechrau, cawsom ein arwain i gredu y byddem yn cael ystafell ein hunain, ar y cynlluniau rydym yn rhannu ystafell gyda Caban y Faenol. Ein horiau agor yw 9-12, mae Caban yn ailagor ar ôl clwb brecwast am 11:20, felly nid yw hyn yn ymarferol nac yn briodol. Mae gennym hefyd ein harddangosfeydd ein hunain, ni fyddai digon o le i'w storio. A fyddem yn cael cyfle i arddangos gwaith plant, a fyddai ardal chwarae tu allan, ar hyn o bryd rydym yn ei ddefnyddio yn ddyddiol, hefyd, pryd byddai rhieni yn cael pigo eu plant i fynny. Hefyd mae'n rhaid i ni fod yn barod am 9yb, sef pan fydd Clwb brecwast yn gorffen. Y rheswm ein bod wedi symud i'r ysgol oedd i alluogi i gael system gofal dydd cynhwysfawr, ond hefyd i arbed ar gost rhent sydd wedi bod yn faich

	ariannol yn enwedig yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, gan ei bod yn dawelach gan ein bod ni'n elusen gofrestredig. Ni fydd gennym le neilltuedig i wneud gwaith papur gan y byddai caban yn defnyddio'r ystafell, ar ôl i'n sesiwn orffen, sef pan fyddwn ni'n ei wneud.	
3.3	<p>Mae'r adeilad yn heneiddio ac mae 2 ddsbarth o'r Cyfnod Sylfaen yn derbyn eu haddysg mewn cabanau ar hyn o bryd ac mae dosbarthiadau Cyfnod Allweddol 2 yn gyfyng iawn. Nid oes lle yn yr ysgol i staff weithio gyda grwpiau na ystafelloedd i gynnal cyfarfodydd gyda rhieni/rhanddeiliad ac nid oes ystafell i staff ddefnyddio yn ystod amser CPA. Hefyd nid oes gofod i arbenigwyr megis athrawon ADY weithio gyda disgyblion na chwaith lle priodol i ddisgyblion dderbyn gwersi cerddoriaeth.</p> <p>Nid oes lle digonol i storio offer ac mae offer Addysg Gorfforol yn cymryd llawer o le yn y neuadd. Mae hi'n anodd cynnal naws ysbrydol ar gyfer gwasanaethau ysgol gyfan mewn neuadd sydd ag offer ar gyfer cinio ysgol (trolis ar gyfer gwagio gwastraff bwyd, byrddau a meinciau) ac offer Addysg Gorfforol wedi eu storio ynddi. Rydym hefyd wedi gorfod buddsoddi mewn 'container' er mwyn storio offer oherwydd diffyg gofod o fewn yr ysgol.</p> <p>Rydym yn ffodus iawn bod cymaint o ofod y tu allan ond nid yw'r ysgol wedi ei chynllunio i alluogi disgyblion y Cyfnod Sylfaen gael mynediad hwylus o'u dosbarthiadau.</p>	<p>Yn y cynllun, y bwriad yw cynyddu capasiti'r Ysgol bresennol i 315 o ddysgwyr, a bwriedir gwneud hyn drwy addasu'r adeiladau presennol, adeiladu estyniadau, a gwaredu'r dosbarthiadau dros dro. Yn ogystal, fel rhan o'r datblygiad mae'n fwriad darparu gofod newydd pwrpasol ar gyfer y Cylch Meithrin.</p> <p>Bydd yr adeiladau gwreiddiol yn cael ei ail fodelu yn fewnol i ddarparu ystafelloedd sydd yn cyd-fynd â'r safonau disgwylidig mewn Ysgol 21Gain. Bydd yr ystafelloedd dysgu ychwanegol, a'r dosbarthiadau sydd yn yr adeiladau dros dro, yn cael eu lleoli oddi mewn i'r estyniadau newydd. Bydd yr estyniadau yma yn cydymffurfio â safonau 'Building Bulletin 99' y Llywodraeth. Yn ogystal, bydd y bloc modwlar to fflat yn cael croen newydd i wella ansawdd yr adeilad.</p>
3.4	<p>Mae adeilad yr ysgol, fel y mae wedi'i ddylunio, yn gwynebu i ffordd o'r ffordd – i ffordd o'r gymuned. Mae'n ymddangos bod hyn yn gamgymeriad. Dylem annog ein plant i edrych allan. Rwy'n teimlo bod cynnwys y ffordd ddwy-ffordd hyd at adeilad yr ysgol yn cymryd gormod o le yn ddiangen.</p> <p>Mae'r fynedfa newydd oddi ar y ffordd yn golygu bod modd gwahanu cerddwyr a cheir yn well. Fodd bynnag, hyderaf y bydd y fynedfa bresennol i gerddwyr yn aros?</p>	<p>Mae adeilad newydd yr Ysgol wedi'i gynllunio fel bod defnyddwyr ac ymwelwyr sy'n defnyddio'r gwahanol gyfleusterau yn medru cael eu gollwng mor agos a phosib at y mynedfeydd priodol. Tra yn cydnabod fod hyn yn golygu nad yw'r mynedfeydd yn wynebu'r briffordd, rhaid nodi nad oedd yn bosib cael dyluniad amgen diogel o fewn y gofod oedd ar gael.</p> <p>Er y bydd mynedfa traffig i'r ysgol yn symud, wrth gwblhau'r gwaith dylunio manwl byddwn yn edrych yn agos ar sefyllfa y groesfan er mwyn sicrhau bod y cynlluniau yn gwella y trefniadau presennol.</p>
4	Estyn	
4.1	Mae'r cynigiwr wedi rhoi sail resymegol glir ar gyfer y manteision disgwylidig mewn perthynas â'r cynnig, ac mae'n esbonio'n dda sut mae'r cynnig yn cydweddu â chynlluniau'r awdurdod lleol ar gyfer dinas Bangor a dalgylch Penrhosgarnedd yn benodol.	Mae Corff Llywodraethol yn derbyn y sylwadau
4.2	Mae'r cynnig yn cynnwys gwybodaeth gefndir ddefnyddiol ac yn cysylltu'r datblygiad â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol fel 'Tuag at 2025 - dyfodol addysg a hyfforddiant i blant a phobl ifanc yng Ngwynedd'. Yn dilyn cyhoeddiad Llywodraeth Cymru yn 2016 am brosiectau ychwanegol o fewn Band A y Rhaglen Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif, cychwynnodd y cyngor adolygiad o'r ddarpariaeth addysg bresennol ym Mangor. Aeth yr adolygiad hwn ati i ystyried effaith datblygiad tai newydd â 245 o dai ar gapasiti ysgolion lleol.	Mae Corff Llywodraethol yn derbyn y sylwad

4.3	Mae'r cynigiwr wedi ystyried yn rhesymol o dda effaith y cynigion ar ansawdd y deilliannau, darpariaeth ac arweinyddiaeth a rheolaeth yn Ysgol y Faenol. Mae'r cynigiwr wedi ystyried canlyniadau adroddiad arolygu diweddaraf Estyn a chategoreiddiad yr ysgol mewn perthynas â'r System Genedlaethol ar gyfer Categori Categori Ysgolion ar ansawdd yr arweinyddiaeth a deilliannau disgyblion.	Mae Corff Llywodraethol yn derbyn y sylwad
4.4	Mae'r cynigiwr yn cynnwys gwybodaeth bwrpasol am yr elfennau amrywiol a gynhwysir fel rhan o waith adeiladu'r ysgol, yn ogystal â'r manteision cysylltiedig. Bydd y ddarpariaeth newydd ar gyfer ystafelloedd dosbarth a dysgu awyr agored yn gwella amgylchedd dysgu'r plant a bydd disgyblion yn gallu gweithio tu allan pan fydd y tywydd yn anffafriol. Bydd staff, arweinwyr a gweinyddwyr yn elwa hefyd o gael gwell adnoddau ac amodau gweithio. Bydd toiledau modern newydd yn addas ar gyfer oedranau gwahanol, a bydd ystafell hylendid yn darparu offer arbenigol i ddysgwyr ag anghenion corfforol. Bydd y fynedfa a'r lle parcio newydd arfaethedig yn sicrhau y bydd cerddwyr a thraffig yn cael eu gwahanu, a bydd ardal ar gyfer gollwng a chodi disgyblion.	Mae Corff Llywodraethol yn derbyn y sylwad
4.5	Mae'r cynnig yn nodi nifer o risgiau posibl sy'n gysylltiedig â'r cynnig, yn awgrymu eu heffaith bosibl a'r camau y gallai'r cyngor eu cymryd er mwyn lliniaru'r risg. Er enghraifft, mae'r cynnig yn nodi diogelwch safle fel risg bosibl, ac y gallai hyn effeithio'n negyddol gan y gallai unrhyw gymhlethdodau neu faterion achosi oedi. Er mwyn lliniaru'r risg hon, byddant yn sicrhau y bydd blant yn cael eu gwahanu'n llwyr oddi wrth ardaloedd gweithio, ac y bydd swyddogion yn parhau i asesu iechyd a diogelwch wrth i'r datblygiad fynd rhagddo. Mae'r adran hon yn awgrymu bod y cyngor wedi paratoi'n dda i sicrhau llwyddiant y cynnig.	Mae Corff Llywodraethol yn derbyn y sylwad yn ymwneud a risgiau cysylltiedig ar prosiect. Bydd monitro cyson yn cael eu gwneud er mwyn lliniaru unrhyw risgiau.
4.6	Mae'r cynigiwr wedi cynnal asesiad priodol o'r effaith ar gydraddoldeb, sy'n ystyried effaith y cynnig ar grwpiau agored i niwed, gan gynnwys y rheini ag anabledd, neu anghenion addysgol arbennig. Rhoddir ystyriaeth hefyd i'r effaith ar y gymuned leol, ac mae'n dod i'r casgliad bod asesiad y llywodraethwyr wedi canfod nad oes unrhyw reswm y dylai'r cynnig gael effaith negyddol ar y gymuned. Wrth ddatblygu'r cynnig, rhoddwyd ystyriaeth lawn hefyd i'w effaith ar y Gymraeg. Mae'r pecyn gwybodaeth ar wefan y cyngor yn cynnwys adroddiad asesu llawn gwybodaeth ac mae'n dangos bod cynnal a chynnyddu'r defnydd o'r Gymraeg fel iaith gymdeithasol ac iaith ar gyfer addysg yn ganolog i'r cynnig.	Mae'r Corff Llywodraethol yn derbyn sylwadau Estyn ynglyn a phrif gasgliadau'r asesiad ar Gydraddoldeb, iaith a chymunedol. Bydd y Cyngor yn parhau i ddilyn prosesau arferol trwy gefnogi a monitro, er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth pob ysgol a'r nodweddion cydraddoldeb.
4.7	Mae'r cynnig yn cynnwys trefniadau addas ar gyfer ymgynghori hefyd.	Mae Corff Llywodraethol yn derbyn y sylwad

5	Arall	
5.1	<p>Nid oes gan yr undeb wrthwynebiad i'r bwriad hwn mewn egwyddor, mae'n hanfodol ystyried y bwriad hwn yng nghydestyn cau ysgolion Glanadda a Choed Mawr</p> <p>Bydd cynyddu capasiti yr ysgol yn galluogi plant ys ysgolion ceuedig symud draw. Ond mae NASUWT Cymru hefyd yn disgyl y bydd y staff sydd dan fygythiad o ddiswddo yn cael ei symud draw hefyd. Mae Adran 12 o'r "Staffing of Maintained Schools (Wales) Regulations 2006" yn datgan gall yr Awdurdod enwebu unrhyw aelod staff sydd yn addas ar gyfer y swydd i dderbyn y swydd. Nid oes angen proses penodi. Bydd NASUWT Cymru yn disgwyl gweld yr Awdurdod yn dilyn y rheolaethau hyn wrth staffio yr ysgol gyda staff yr ysgolion dan fygythiad.</p>	<p>Bydd y mater ynglŷn a'r angen am staff ychwanegol yn destun trafodaethau pellach gyda'r Awdurdod fel rhan o'r gwaith cynllunio.</p> <p>Parthed y sylw ynglŷn ac enwebu aelod o staff sydd yn addas ar gyfer unrhyw swydd benodol, byddai hyn yn fater i'w ystyried gan yr Awdurdod.</p>
5.2	<p>Gydag ad-drefnu llefydd mewn ysgolion cynradd ledled ardal Bangor, byddai'n ymddangos yn synhwyrol i mi i edrych eto ar y dalgylchoedd yn gyffredinol i gadarnhau eu bod yn dal yn addas i pwrpas.</p>	<p>Oherwydd mae gweithredu ar y cynnig i gynyddu capasiti Ysgol y Faenol yn unig mae'r Corff Llywodraethol yr Ysgol pe byddai angen ystyried yr angen i edrych ar ddalgylchoedd yn ardal Bangor ar gyfer y dyfodol, mi fyddai'n fater i'r Awdurdod Addysg.</p>
5.3	<p>Yn gyntaf, ac yn bwysicach fyth, rhaid imi ddweud pa mor siomedig ydw i, nid yw Cyngor Gwynedd wedi cyfathrebu'n uniongyrchol â'r gymuned leol ynghylch y cynigion ar gyfer y Ganolfan a wnaed o ran yr ysgol. Dywedir wrthyf fod copiau caled hefyd wedi'u darparu yn y llyfrgell leol (yr wyf yn tybio ym Mangor), Siopau Gwynedd Pwllheli, Dolgellau a Chaernarfon, a bod pobl wedi cael gwybod gan Twitter a Facebook (dydw i ddim yn siŵr o ran cyfreithlondeb o ddefnyddio Twitter a Facebook at y diben hwn gan nad oes gwybod pwy sy'n derbyn y rhybuddion hyn) Fel o leiaf, dylid gosod poster syml ar hysbysfwrdd y Ganolfan, os nad taflen i bob preswlydd yn yr ardal.</p> <p>Rwy'n colli i ddeall pam na chafodd y gymuned leol gyfan wybod am y cyflwyniad yn yr ysgol pan wnaed ymdrech o'r fath gyda byrddau arddangos manwl a chynrychiolwyr prosiectau sydd ar gael.</p>	<p>Pwrpas yr Ymgynghoriad statudol yma yn benodol yw cynyddu capasiti Ysgol y Faenol felly fel rhan o unrhyw ymgynghoriad statudol yn ymwneud ag newidiadau arfaethedig mewn ysgolion, rydym yn llythyru holl rieni/gwarchodwyr/staff yr ysgol sydd yn cael eu heffeithio ac yn sicrhau bod copi caled yn cael ei ddarparu iddynt. Mae copiau caled hefyd wedi eu darparu yn y Llyfrgell Leol sef Bangor a Siopau Gwynedd Caernarfon, Pwllheli a Dolgellau.</p> <p>Yn ogystal, mae e-bost yn cael ei anfon i'r holl ymgynghorai gan gynnwys Penaethiaid ysgolion yng Ngwynedd a Chynghorwyr Cyngor Gwynedd. Mae hyn yn unol a Chod Trefniadaeth Ysgol 006/2013.</p> <p>Roedd y sesiynau galw heibio yn benodol wedi eu trefnu i hysbysebu am y newidiadau arfaethedig yn yr ysgol gydag Aelodau o'r Cyngor Cymuned yno i hysbysu am y newidiadau arfaethedig yn y Ganolfan Gymunedol.</p>
5.4	<p>Siomedig nad anfonwyd taflenni allan ynghylch yr ymgynghoriad ar ddydd Mawrth a Mercher 9/10 Hydref. Nid oedd y rhan fwyaf o bobl hŷn yn gwybod amdano oherwydd bod y rhieni wedi cael gwybod yn yr ysgol.</p>	
6	Dyluniad ac adnoddau'r Ganfan Gymunedol (sydd ddim yn destyn i'r cynnig)	
6.1	<p>Rhaid i'r adeilad fod yn gwbl addas i'r anabl a digon o le parcio</p> <p>Plis gawn ni'r gegin nesa at y Neuadd a "hatch" fel bob dim perygl wrth cario tecell poeth!</p> <p>Plis gawn ni ddrws o'r ffrynt i mewn – sef o'r llwybr</p> <p>Plis gawn ni "french window" allan i'r Neuadd</p> <p>Angen "blackout" er mwyn dangos lluniau a.y.y.b. Gweler cynllun amgaeedig.</p>	

<p>6.2 Rwy'n athro yoga ac yn llogi'r Ganolfan ar nos Lun ar hyn o bryd ac yn rhedeg fy nosbarth drwy gydol y flwyddyn.</p> <p>Yr hyn sy'n wych am y lle presennol yw maint y brif neuadd (120m²). Mae'r dosbarth wedi bod yn boblogaidd iawn ac mae gennym le i groesawu mwy pan fo pobl newydd am ymuno â ni. Hefyd, rydym yn hoffi'r opsiwn o allu llogi ystafell lai, ratach pan fo'r niferoedd yn is dros yr haf. Rydym wrth ein boddau hefyd yn cael mynediad i'r ardal breifat a chaeedig o wair sy'n wynebu'r gorllewin, sy'n dal yr haul gyda'r nos yn yr haf. Fe wnaethom ddefnyddio'r ardal hon drwy gydol yr haf gan ei bod hi'n well gwneud yoga y tu allan.</p> <p>Yr hyn y byddem ei angen o'r Ganolfan newydd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Lle fforddiadwy, dim mwy na'r gyfradd bresennol • Opsiynau i logi lle o faint tebyg o 120m² - 30m² gyda dodrefn sy'n hawdd ei symud os bydd angen • Mynediad i gadeiriau heb freichiau • Mae llawr glân yn hanfodol gan ein bod yn treulio llawer o amser ar y llawr • Golau naturiol ac opsiynau golau ysgafn • Modd i reoli'r tymheredd ac awyru da • Lle tawel heb lawer o ymyrraeth/gweithgaredd • Mynediad hawdd a diogel, yn enwedig gyda'r nos. Rwy'n cario bagiau trwm gyda matiau, blancedi a blociau yoga ac ati. • Byddai ardal breifat y tu allan heb faw cŵn/cathod yn fonws go iawn <p>Cwestiynau yr hoffwn gael atebion iddynt:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. A fydd trosglwyddiad llyfn o un Ganolfan i'r llall? 2. Beth fydd y gost llogi? Pwy fydda i'n ei dalu a sut? 3. A fyddai'n dal yn medru llogi'r ystafell ar nosweithiau Llun? 4. Pwy fyddai fy mhwynt cyswllt? 5. A fydd hysbysfwrdd ar gyfer cyhoeddusrwydd? 6. A fydd gennym fynediad i le tu allan? 	<p>Gweler ymatebion 6.1-6.6 yn ymwneud a materion Canolfan Cymunedol Penrhosgarnedd.</p> <p>Fel yr eglurir yn y ddogfen ymgynghori (tud. 3), dim ond ag Ysgol y Faenol y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud, i'r perwyl hynny, gwahoddwyd sylwadau ar y cynnig fel y disgrifiwyd ym mharagraff 1.1, sef:</p> <div data-bbox="1245 419 2072 483" style="border: 1px solid black; background-color: #e1f5fe; padding: 5px; text-align: center;"> <p>Cynyddu capasiti Ysgol y Faenol o 186 i 315</p> </div> <p>Er nad yw'r ymgynghoriad yma yn ymwneud yn benodol ar Canolfan Gymunedol, mae'r Corff Llywodraethol/ Cyngor Gwynedd yn cydnabod y sylwadau a dderbyniwyd a trafodir sylwadau/dyluniadau arfaethedig gyda aelodau y Cyngor Cymuned Pentir pan fydd y cynlluniau yn cael eu datblygu yn fanylach.</p> <p>Mae'r Cyngor eisoes wedi trafod posibiliadau ac opsiynau ar gyfer ail-leoli'r Ganolfan gyda Chyngor Cymuned Pentir, fel y corff sy'n dal prydles o'r safle gan Gyngor Gwynedd. Mae gwaith dichonoldeb wedi adnabod sawl opsiwn ar gyfer lleoli canolfan cymunedol newydd ar safle'r ysgol bresennol gyda chyfraniad ariannol tuag at adnoddau cymunedol ychwanegol. Fel unrhyw sefyllfa debyg yn cynnwys defnyddwyr gwahanol ar safle ysgol, byddai trefniadau cadarn mewn lle i ddiwallu anghenion gwahanol yr ysgol a'r gymuned. Bydd y datblygiad yn creu cyfleoedd i'r ysgol a'r gymuned i sicrhau bod y safle'n gweithredu fel canolbwynt ar gyfer nifer o weithgareddau ar gyfer ardal Penrhosgarnedd.</p>
<p>6.3 Maint yr Adeilad: Mae'r ganolfan gymunedol arfaethedig tua 25% yn llai na'r adeilad presennol.</p> <p>Hyblygrwydd: Nodwyd y defnydd o barwydydd symudol i greu ardaloedd ar wahân. Fodd bynnag, petai yna weithgaredd swmlyd yn digwydd mewn un ardal mi fyddai hwnnw'n amharu ar ddigwyddiad yn yr ardal arall. Er enghraifft, dosbarth dawnsio yn cael ei gynnal yn y neuadd a phwyllgor yn cael ei gynnal yn yr ystafell gyfarfod: ohewydd y swm, fyddai dim modd cynnal y ddau yr un pryd, fel sy'n gallu digwydd ar hyn o bryd.</p>	

Hygyrchedd ac uchder: Mae partïon plant yn cael eu cynnal yn rheolaidd yn y neuadd bresennol ac mae cestyll bownsio'n rhan o'r partïon hyn yn aml. A fyddai (a) modd cael castell bownsio i mewn i'r adeilad arfaethaedig (h.y. a allech ei gael at y drws a thrwyddo)? (b) A fydd y neuadd yn ddigon uchel i gastell o'r fath?

Lle y tu allan: Mae'r grwpiau sy'n defnyddio'r Ganolfan ar hyn o bryd yn gwerthfawrogi gallu defnyddio'r gofod y tu allan i'r adeilad, sy'n hawdd cael mynediad ato. Mae'r grwpiau hynny sy'n cynnwys pobl fregus, yn enwedig, yn gwerthfawrogi y lle mwy neilltuedig sydd y tu ôl i'r adeilad presennol. Mae'r gofod y tu allan yn cael ei ddefnyddio hefyd ar gyfer partïon yn yr haf, yn cynnwys y defnydd o gestyll bownsio. A fydd yna le tebyg ar gael y tu allan i'r ganolfan newydd?

Parcio ceir: Mae gan yr adeilad presennol faes parcio helaeth. Faint o lefydd parcio fydd ar gael ar gyfer defnyddwyr y Ganolfan pan fydd angen rhannu'r lle parcio hwn gydag athrawon ac eraill sy'n defnyddio'r ysgol?

Cyswllt â'r ysgol: Nodir bod y ganolfan newydd wedi'i chysylltu'n uniongyrchol â'r ysgol. Pa drefniadau sy'n cael eu hargymell er mwyn sicrhau bod y Ganolfan wedi'i gwahanu mewn modd diogel oddi wrth yr ysgol, ac fel arall? Sut y byddai'r trefniadau y tu allan i oriau ysgol yn gweithio? Beth fyddai'n digwydd mewn argyfwng?

Mynediad/ffordd allan: Nodir bod yr unig ddrws i mewn i'r adeilad yn ddrws sy'n cysylltu'r adeilad â'r ysgol; fodd bynnag, mae yna ardal Mynedfa/Derbynfa ond heb ddrws wedi'i adnabod – camgymeriad yw hyn, fe dybiwn. Onid oes angen allanfa argyfwng sy'n mynd yn syth o'r Ganolfan allan i'r awyr agored?

Cegin: mae angen i'r cegin fod yn hygyrch i'r anabl ac yn hawdd iddynt ei defnydd. Yn benodol, byddai'r grŵp Awtistiaeth ac Asperger angen defnyddio'r cegin. Hefyd, mae angen gallu cael mynediad i brif ofod y Ganolfan, hyd yn oed pe bai hynny ond drwy hatsh gweini addas.

Arwyddion: Mae mynedfa'r adeilad arfaethaedig yn anweladwy o'r ffordd. Dylid cael arwyddion clir ar unrhyw Ganolfan Gymunedol newydd a'r rheini'n weladwy o'r ffordd, fel bod pobl yn ymwybodol fod yno ganolfan ac nid dim ond rhan o'r ysgol. Dylai'r arwyddfwrd fod yn weladwy i gerddwyr hefyd.

Elfen	Disgrifiad	Manteision
Canolfan Gymunedol	Bydd y cyfleusterau sydd yn y Ganolfan bresennol yn cael eu had-leoli i'r adeilad newydd ochr yn ochr ar ysgol. Bydd yr adnoddau yma ar gael at ddefnydd y gymuned, a byddent yn cael eu rheoli gan Gyngor Cymuned Pentir. Mae'r adnoddau yma yn cynnwys: Mynedfa/Derbynfa Swyddfa Toiled Hygyrch Toiled x 2 Cegin 'Storfa x 5 Ystafell Gyfarfod x 2 Stiwdio	Galluogi'r gymuned i gael adeilad modern, hygyrch, hyblyg o ran defnydd, ac effeithlon o safbwynt ynni.

Nid yw rhai o'r sylwadau parthed y gofod a maint y gwahanol stafelloedd yn rhoi darlun clir o'r holl adnoddau newydd fydd ar gael i'r gymuned. Bydd yr adeilad newydd un hyblyg iawn a fydd yn galluogi i sawl defnydd gwahanol gymryd lle ar yr un pryd pe bai angen, rhywbeth na ellir ei gynnig i'r un graddau yn y ganolfan bresennol.

Bydd arwynebedd y prif ofod (neuadd) yn gallu ymestyn i 122m² – sydd yn fwy na'r 116m² gynnigir gan y stafell fwyaf yn y ganolfan bresennol.
Bydd yr ystafelloedd cyfarfod yn y ganolfan newydd yn gallu amrywio o 30m² i 60 m², sydd yn fwy na'r 21 m² yn y Ganolfan bresennol.

Bydd y cegin yn y ganolfan newydd yr un maint a'r un sydd yn y ganolfan bresennol.

<p>6.4 Cefnogir y Ganolfan bresennol yn dda iawn, ac mae mewn lleoliad perffaith i gefnogi'r gymuned, gyda digonedd o le i barcio a mynediad hawdd i bobl hŷn a llai galluog. Mae una ardaloedd glaswellt, yn breifat yn y cefn ac yn agored i'r blaen, a ddefnyddir gan Cylch Meithrin, partion plant, grwpiau loga, ac ati.</p> <p>Rwy'n cydnabod bod yr adeilad presennol yn dangos ei oedran ac mae angen gwariant sylweddol ond roedd y Pwyllgor Canolfan wedi dechrau edrych ar ffynonellau ar gyfer arian i fynd i'r afael â'r sefyllfa hon.</p> <p>Fy Sylwadau yn ymwneud a'r cynllun cysyniadol</p> <table border="0"> <tr> <td>Effaith</td> <td>Mater</td> </tr> <tr> <td>Sefyllfa 'n well</td> <td>Adeilad newydd cadarnhaol a diogel i safonau modern gyda gwresogi, golau effeithlon ac addurniad ffres</td> </tr> <tr> <td>Sefyllfa 'n well</td> <td>Byddai'r rhaniadau symudol yn ychwanegu at hyblygrwydd yr adeilad</td> </tr> <tr> <td>Sefyllfa 'n well</td> <td>Mae'r ail ystafell gyfarfod yn fwy na'r ystafell bwyllgor bresennol ac mi fyddai o fudd i'r grwpiau sy'n ei ddefnyddio ar hyn o bryd.</td> </tr> <tr> <td>Sefyllfa 'n well</td> <td>Cynnwys swyddfa ar gyfer Cyngor Cymuned Pentir (ond ni ddylid ystyried y cyfleuster hwn wrth gymharu'r ddau adeilad, mae hwn yn cyfleuster ychwanegol)</td> </tr> <tr> <td>Sefyllfa 'n well</td> <td>Bydd ceir a bysiau ysgol yn gallu parcio oddi ar brif ffordd Penrhos</td> </tr> <tr> <td>Sefyllfa 'n Salach</td> <td>Mae rhai o ddefnyddwyr y Ganolfan yn henoed neu mewn iechyd gwael, ni allent gerdded o'r maes parcio arfaethedig. Mae angen modd i barcio y tu allan i'r fynedfa.</td> </tr> <tr> <td>Sefyllfa 'n Salach</td> <td>Mae'r adeilad presennol yn sefyll ar ei ben ei hun ac yn cael ei gydnabod gan y gymuned fel Canolfan Penrhosgarnedd lle mae'r ysgol yn cwmpasu'r adeilad newydd. Efallai y bydd hyn yn profi'n annymunol i ddefnyddwyr yn ystod y dydd.</td> </tr> </table>	Effaith	Mater	Sefyllfa 'n well	Adeilad newydd cadarnhaol a diogel i safonau modern gyda gwresogi, golau effeithlon ac addurniad ffres	Sefyllfa 'n well	Byddai'r rhaniadau symudol yn ychwanegu at hyblygrwydd yr adeilad	Sefyllfa 'n well	Mae'r ail ystafell gyfarfod yn fwy na'r ystafell bwyllgor bresennol ac mi fyddai o fudd i'r grwpiau sy'n ei ddefnyddio ar hyn o bryd.	Sefyllfa 'n well	Cynnwys swyddfa ar gyfer Cyngor Cymuned Pentir (ond ni ddylid ystyried y cyfleuster hwn wrth gymharu'r ddau adeilad, mae hwn yn cyfleuster ychwanegol)	Sefyllfa 'n well	Bydd ceir a bysiau ysgol yn gallu parcio oddi ar brif ffordd Penrhos	Sefyllfa 'n Salach	Mae rhai o ddefnyddwyr y Ganolfan yn henoed neu mewn iechyd gwael, ni allent gerdded o'r maes parcio arfaethedig. Mae angen modd i barcio y tu allan i'r fynedfa.	Sefyllfa 'n Salach	Mae'r adeilad presennol yn sefyll ar ei ben ei hun ac yn cael ei gydnabod gan y gymuned fel Canolfan Penrhosgarnedd lle mae'r ysgol yn cwmpasu'r adeilad newydd. Efallai y bydd hyn yn profi'n annymunol i ddefnyddwyr yn ystod y dydd.	<p>Bydd y toiledau yn y ganolfan newydd (gan gynnwys toiledau hygyrch) yn 18m2, sydd bron yn ddwbl y 10m2 yn y ganolfan bresennol.</p> <p>Yn ychwanegol i'r hyn sydd wedi ei gartrefu yn y Ganolfan bresennol, bydd swyddfa'r Cyngor Cymuned hefyd wedi ei leoli yn y Ganolfan Newydd.</p> <p>Mae dyluniad effeithlon yr adeilad newydd yn golygu bydd y gofod cylchredeg di ddefnydd yn gallu bod gryn dipyn yn llai na'r hyn sydd yn y ganolfan bresennol. Bydd hyn yn lleihau cyfanswm arwynebedd yr adeilad ac felly o gymorth tuag at leihau costau megis trethi, costau gwresogi ayb.</p> <p>Bydd y partisiwn symudol sydd yn rhannu'r gofod cymunedol o ansawdd da ac yn rhai pwrpasol i atal sŵn.</p> <p>Mae parcio hygyrch yn ran greiddiol o'r dyluniad allanol. Mae manau parcio hygyrch y tu allan i'r prif fynedfa i'r Ganolfan.</p> <p>Rhaid cofio nad yw dyluniad terfynol y Ganolfan wedi cael ei orffen. Er fod maint pob gofod wedi'i gytuno, mae angen cytuno union lleoliad yr ystafelloedd mewn perthynas i'w gilydd. Oherwydd hyn, nid yw pob ffenest a drws wedi'u dangos eto. Bydd eich sylwadau yn cael sylw pan yn cytuno y dyluniad terfynol gyda'r Cyngor Cymuned Pentir.</p> <p>O ran hunaniaeth a hyrwyddo'r Ganolfan newydd, mae hyn yn flaenoriaeth gan y Cyngor Cymuned, a bydd arwyddion amlwg yn cael eu gosod ar yr adeilad i'w wahaniaethu oddi wrth yr Ysgol.</p>
Effaith	Mater																
Sefyllfa 'n well	Adeilad newydd cadarnhaol a diogel i safonau modern gyda gwresogi, golau effeithlon ac addurniad ffres																
Sefyllfa 'n well	Byddai'r rhaniadau symudol yn ychwanegu at hyblygrwydd yr adeilad																
Sefyllfa 'n well	Mae'r ail ystafell gyfarfod yn fwy na'r ystafell bwyllgor bresennol ac mi fyddai o fudd i'r grwpiau sy'n ei ddefnyddio ar hyn o bryd.																
Sefyllfa 'n well	Cynnwys swyddfa ar gyfer Cyngor Cymuned Pentir (ond ni ddylid ystyried y cyfleuster hwn wrth gymharu'r ddau adeilad, mae hwn yn cyfleuster ychwanegol)																
Sefyllfa 'n well	Bydd ceir a bysiau ysgol yn gallu parcio oddi ar brif ffordd Penrhos																
Sefyllfa 'n Salach	Mae rhai o ddefnyddwyr y Ganolfan yn henoed neu mewn iechyd gwael, ni allent gerdded o'r maes parcio arfaethedig. Mae angen modd i barcio y tu allan i'r fynedfa.																
Sefyllfa 'n Salach	Mae'r adeilad presennol yn sefyll ar ei ben ei hun ac yn cael ei gydnabod gan y gymuned fel Canolfan Penrhosgarnedd lle mae'r ysgol yn cwmpasu'r adeilad newydd. Efallai y bydd hyn yn profi'n annymunol i ddefnyddwyr yn ystod y dydd.																

<p>Sefyllfa 'n Salach</p>	<p>Byddai presenoldeb canolfan gymunedol yn yr ysgol yn cynnwys ymddangosiad pobl ger yr ysgol, boed yn ddefnyddwyr dilys ai peidio. Gall hyn fod yn annifyr neu'n annymunol i'r ysgol, yn enwedig rhieni.</p>
<p>Sefyllfa 'n Salach</p>	<p>Nid yw'r cyfuniad o ystafell gyfarfod a stiwdio gyda'i gilydd (90m²) mor fawr â neuadd bresennol y Ganolfan (tua 115 m²), mae lle yn bwysig pan cynnal partion plant.</p>
<p>Sefyllfa' n Salach</p>	<p>Nid oes unrhyw ddrws uniongyrchol i'r stiwdio o'r tu allan, byddai'r trefniant hwn yn creu trafferth i gael teganau gwynt fel cestyll bownsio i'r ardal hon yn anodd, a gallant achosi difrod i ddrysau a waliau wrth gael eu symud drwy'r adeilad. (mae castell bownsio angen oddeutu 21m² o le ar y llawr gyda 1 m arall o gwmpas yn rhoi cyfanswm ôl troed o tua 43m² gyda phenfa tua 3 m) Nid oes digon o le yn y stiwdio yn unig.</p>
<p>Sefyllfa' n Salach</p>	<p>Byddai angen atal sŵn drwy'r rhaniadau: gall grwpiau dawns fel Zumba fod yn swnllyd iawn.</p>
<p>Sefyllfa' n gyfartal</p>	<p>Mae'r gegin yn llai na'r hyn yn yr adeilad presennol (cydnabyddir nad yw'r trefniant cegin presennol yn gwneud y defnydd gorau o'r lle) ond dylai cegin newydd fod yn hygyrch i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn ac yn ddigon mawr fel y gellid cynnig hyfforddiant paratoi bwyd gyda digon o le ar gyfer paratoi bwyd ac o bosib popty ddwbl.</p>
<p>Sefyllfa' n gyfartal</p>	<p>Dylai'r gegin fod yn gyfagos i'r Stiwdio ac o bosib un o'r ystafelloedd cyfarfod fel y gallir fynd a bwyd neu ddiodydd yn uniongyrchol i'r ystafell ac o bosib trwy deor.</p>
<p>Sefyllfa' n Salach</p>	<p>Nid yw'n ymddangos bod llwybr dianc allan o'r adeilad, ni fyddai'r drws ychwanegol o'r Stiwdio i'r ysgol (nid yw'n ymddangos yn y ddogfen Ymgynghori) yn ddigonol gan y byddwn yn dychmygu y bydd y drws hwn yn cael ei gloi allan o oriau busnes.</p>

	<p>Sefyllfa'n Salach Mae'r adeilad presennol yn mwynhau ardaloedd glaswelltog i'r cefn a'r blaen. Nid yw'r ardd gefn yn cael ei anwybyddu ac fe'i defnyddir bron bob dydd gan ddefnyddwyr presennol yn ystod tywydd braf. Nid yw'n ymddangos bod darpariaeth debyg gyda'r adeilad arfaethedig.</p> <p>Sefyllfa'n Salach Defnyddir yr ardal glaswelltog yn y blaen mewn tywydd braf ar gyfer partion plant a gall gynnwys defnydd o deganau chwyddadwy. Er enghraifft, roedd dau gestyll bownsio (ar gyfer dau grŵp oedran) yn cael eu defnyddio mewn parti eleni). Nid yw'n ymddangos bod darpariaeth debyg gyda'r adeilad newydd.</p> <p>Sefyllfa'n Salach Mae dimensiynau'r toiledau bwriedig yr un fath os nad ydynt yn llai na'r rhai presennol. Ystyrir bod y toiledau yn rhy fach gyda dim ond un ciwbicl yn yr ochr ddynion. Os yw wal preifatrwydd i'w chynnwys yna nid yw'r lle a neilltuwyd ar hyn o bryd yn ddigonol.</p> <p>Sefyllfa'n Salach Bydd traffig sy'n ceisio mynd i mewn i'r briffordd o'r maes parcio newydd yn debygol o achosi tagfeydd tebyg i'r un sydd ar hyn o bryd yn ysgol Garnedd</p> <p>Rwy'n ymddiried y bydd y Cyngor yn ystyried yr holl bwyntiau uchod cyn cwblhau dyluniad yr adeilad newydd ac edrychaf ymlaen at eich sylwadau</p>	
6.5	<p>Rwyf yn gefnogol, yn gyffredniol, i'r cynllun i ddymchweld yr adeilad presennol a chreu canolfan newydd ar safle'r ysgol ei hun. Gallaf weld mantais hyn o safbwynt rhyddhau lle i greu system drafnidiaeth a pharcio well a mwy diogel ar gyfer yr ysgol. O safbwynt y Ganolffanei hyn, gallaf weld bod y cynllun newydd yn gyfle inni gael adeilad newydd modern, er y bydd hwnnw'n llai na'r ganolfan bresennol. Fodd bynnag, mae'n hanfodol fod y Ganolfan newydd a'i hunaniaeth weladwy ei hyn oddi mewn i adeiladau'r ysgol a bod ei bodolaeth yn cael ei wneud yn gwbl amlwg i'r gymuned trwy ddefnydd o arwyddion ac ati, yn hytrach na'i bod yn rhyw uned braidd yn guddiedig o fewn yr ysgol. Yn ychwanegol at hynny, mae yn nifer o anghenion penodol gan ddefnyddwyr y Ganolfan y mae'n bwysig iawn darparu ar ei cyfer yn y Ganolfan newydd. Am restr lawn o'r rhain, gw. Ymateb Pwllgor Canolfan Penrhos i'r ymgynghoriad a anfonwyd gan ein hysgrifennydd ar y 28 Hydref.</p>	

6.6	<p>Wedi edrych ar y cynlluniau, ymddengys nad oes lle y tu allan ar wahân i'r Ganolfan ar y cynlluniau. Mae ein Clwb Ieuencid yn cyfarfod bob wythnos drwy gydol y flwyddyn ac yn aml cynhelir gemau awyr agored ac ati.</p> <p>Wedi astudio'r cynlluniau, ymddengys bod drws i gysylltu'r Ganolfan i'r ysgol, a yw hyn yn gywir? A oes drws dwbl yn mynd i'r Ganolfan gan fod partion ac ati yn cael eu trefnu drwy gydol y flwyddyn (castell neidio ac ati) a bydd angen mynediad.</p> <p>Mae'r gegin gryn bellter o'r Ystafelloedd Cyfarfod, felly byddai 'hatch' o'r gegin i'r Ystafell Gyfarfod yn fantais fawr. Hefyd ymddengys bod y gegin y drws nesaf i'r toiledau.</p> <p>Gobeithiaf y bydd fy sylwadau yn cael eu pasio ymlaen, gan obeithio y cawn Ganolfan Gymunedol a fydd o fantais fawr i'r Gymuned.</p>	
-----	--	--